# Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

# Protocol Celcio

| Dyddiad Adolygwyd | Diwygiwyd gan | Dyddiad Cymeradwyo | |
|---|---|---|---|
| 11/2022 | CBS Conwy | P a G | 02/2023 |
| | | **Adolygu** | |

**Pwrpas**

Diben y Protocol Celcio hwn yw lleihau'r risg i'r unigolyn a'r gymuned trwy waith uniongyrchol, gan alw ar ddeddfwriaeth berthnasol lle y bo angen. Os yw'r unigolyn yn cynghori nad yw am gael unrhyw help neu gymorth, yna fel ymarferwyr mae'n rhaid i chi ddal i ystyried a ddylid neu a ellid gwneud unrhyw beth drwy asesu'r risg i iechyd a lles yr unigolyn a'i allu i wneud penderfyniadau perthnasol.

**Cwmpas**

Mae'r protocol hwn yn nodi fframwaith ar gyfer gofal cymdeithasol ac asiantaethau perthnasol eraill i weithio mewn partneriaeth gan ddefnyddio model sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n seiliedig ar ateb. Mae'r protocol yn cynnig arweiniad clir i staff sy'n gweithio gyda chelcwyr.

**Cyfrifoldebau**

Ar ôl dilyn yr holl ganllawiau o fewn y protocol hwn, gall ddod yn amlwg eich bod wedi ystyried pob gweithred o fewn eich pwerau statudol i wella'r sefyllfa heb unrhyw lwyddiant neu lwyddiant rhannol, ac yna rhaid parchu dewis yr unigolyn i barhau fel ag y maent.

Mae'n gyfrifoldeb ar bob ymarferwr sy'n gweithio gydag unigolion sy'n celcio i gadw at y protocol hwn.

**Talfyriadau**

OCD - Anhwylder Gorfodaeth Obsesiynol

CMHT - Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol

MCA - Deddf Galluedd Meddyliol

HSC - Gwirio Diogelwch y Cartref

ALl - Awdurdod Lleol

EH - Iechyd yr Amgylchedd

RSPCA - Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid

NPVAS - Asesiad gweledol di-broffesiynol

PPE - Cyfarpar Diogelu Personol

CBSC – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

EHO - Swyddog Iechyd yr Amgylchedd

WARRN - Rhwydwaith Ymchwil Risg Cymhwysol Cymru

MASH – Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol

**Cydraddoldeb**

Mae’n rhaid gweithredu Deddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau nad oes gwahaniaethu ar sail: Hil ac Ethnigrwydd; Anabledd; Oedran; Rhyw; Cyfeiriadedd Rhywiol; Crefydd a Chred; Y Gymraeg; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil, a sicrhau cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998.

**Dogfennau Perthnasol:**

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Deddf Diogelu Data 2018

Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998

Deddf Iechyd Cyhoeddus 1936

Deddf Iechyd Cyhoeddus 1963

Deddf Atal Difrod gan Blâu 1949

Deddf Diogelu’r Amgylchedd 1990

Deddf Tai 1988

Deddf Tai 2004

**Corff y Polisi / Gweithdrefn:**

Mae'r protocol hwn ar gyfer ymarferwyr a all ddod ar draws unigolion sy'n byw mewn amgylchiadau afiach ac sy'n celcio. Mae celcio yn bryder difrifol i gymunedau ac i unigolion, gan achosi gofid i'r unigolyn a'r rhai o'i gwmpas, gan beri risg o dân, codymau, haint a phla. Mae celcio gorfodol yn gymhleth iawn ac yn gofyn am ymagwedd gydweithredol ac integredig. Nod y protocol hwn yw sicrhau gweithio mewn partneriaeth amlasiantaethol ystyrlon, cydlynol gyda phobl sy'n celcio er mwyn lleihau dyblygu ar gyfer yr asiantaethau a’r unigolion. Nod y protocol yw hwyluso canlyniadau cadarnhaol a chynaliadwy drwy gynnwys yr unigolion ym mhob cam o’r broses. Mae'r protocol yn cynnwys cyfeiriad at ddarnau o ddeddfwriaeth a allai fod yn berthnasol i weithio gyda phobl sy'n celcio.

**Cynnwys** **Rhif Tudalen**


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| I bwy y mae'r Protocol yn berthnasol? | 5 |
| Nodau'r Protocol | 5 |
| Diffiniad o Gelcio | 6 |
| Nodweddion Cyffredinol Celcio | 6 |
| Beth yw Anhwylder Celcio? | 7 |
| Mathau o Gelcio | 8 |
| Galluedd Meddyliol | 9 |
| Rhannu Gwybodaeth | 10 |
| Diogelwch Tân | 11 |
| Pwerau Iechyd yr Amgylchedd | 11 |
| Diogelu | 13 |
| Ymateb Aml-asiantaeth | 13 |
| Offeryn Delwedd Mesur Annibendod | 13 |
| Canllaw Offeryn Asesu | 16 |
| Cwestiynau Canllaw ar gyfer Ymarferwyr | 24 |
| Canllawiau ar gyfer Ymarferwyr – Mewnwelediad o Nodweddion Celcio | 25 |
| Asesiad Celcio i Ymarferwyr | 26 |


**Atodiadau:**


1. Templed Rhaglen Cyfarfod Aml-asiantaeth
2. Ffurflen Asesu Risg
3. Ffurflen Atgyfeirio'r Gwasanaeth Tân

## 1.0 Cyflwyniad

1.1. Mae'r protocol hwn yn nodi fframwaith ar gyfer gofal cymdeithasol ac asiantaethau perthnasol eraill i weithio mewn partneriaeth gan ddefnyddio model sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n seiliedig ar ateb. Mae'r protocol yn cynnig arweiniad clir i staff sy'n gweithio gyda chelcwyr. Mae'r protocol wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â phartneriaid aml-asiantaeth.

1.2. Mae celcio gorfodol yn gymhleth iawn ac yn gofyn am ymagwedd gydweithredol ac integredig. Nod y protocol hwn yw sicrhau gweithio mewn partneriaeth amlasiantaethol ystyrlon, cydlynol gyda phobl sy'n celcio er mwyn lleihau dyblygu ar gyfer yr asiantaethau a'r dinasyddion. Nod y protocol yw hwyluso canlyniadau cadarnhaol a chynaliadwy i ddinasyddion, drwy eu cynnwys ym mhob cam o'r broses.

1.3. Mae'r protocol yn cynnwys cyfeiriad at ddarnau o ddeddfwriaeth a allai fod yn berthnasol i weithio gyda phobl sy'n celcio.

1.4 **Os bydd ymarferwyr yn sylwi wrth weithio ag unigolion sy'n celcio, bod plentyn neu oedolyn sydd hefyd yn byw yn yr eiddo mewn perygl, dylid rhoi ystyriaeth frys i lunio adroddiad diogelu ar gyfer y plentyn neu'r oedolyn sydd mewn perygl gyda'r awdurdod lleol (gweler 12.0 isod).**

## 2.0 I bwy y mae'r Protocol yn berthnasol?

2.1 Mae'r protocol hwn yn berthnasol i'r holl staff sy'n gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol a'r asiantaethau partner sy'n ffurfio'r Bwrdd Partneriaeth Diogelu Oedolion Rhanbarthol sydd wedi ymrwymo i'r protocol.

2.2 Disgwylir i bawb gymryd rhan yn llawn wrth weithio mewn partneriaeth i gyflawni'r canlyniad gorau i'r dinesydd, wrth fodloni gofynion a dyletswyddau asiantaethau unigol.

## 3.0 Nodau'r Protocol

3.1 Dyma nodau'r protocol:

- Ymchwilio a rhannu gwybodaeth am y problemau sy'n gysylltiedig â chelcio o wahanol safbwyntiau proffesiynol a chymunedol. Ymdrin â digwyddiadau ar sail tystiolaeth, mewn ffordd strwythuredig, systematig, cydlynol a chyson.
- Datblygu atebion aml-asiantaeth "anffurfiol" sy'n gwneud y defnydd gorau o wasanaethau ac adnoddau presennol ac a allai leihau'r angen am atebion gorfodol.
- Pan fydd angen atebion ffurfiol, sicrhau bod proses ar gyfer cynllunio atebion wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion y dinesydd. Mae atebion posib yn cynnwys cefnogaeth a monitro proffesiynol, atgyweiriadau eiddo ac ailgartrefu parhaol a dros dro.

- Sefydlu arfer orau a hybu dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth sydd a wnelo ag ymddygiad celcio.

## 4.0 Diffiniad o Gelcio

4.1 Celcio yw casglu a chadw gormod o unrhyw ddeunydd, i'r graddau ei fod yn amharu ar weithrediad o ddydd i ddydd (Frost & Gross, 1993). Mae celcio patholegol neu orfodol yn fath penodol o ymddygiad a nodweddir gan:

- Gaffael a methu â chael gwared ar nifer fawr o eitemau nad ydynt yn ôl pob golwg yn werth rhyw lawer, neu ddim o gwbl, a fyddai'n cael eu hystyried fel sbwriel gan bobl eraill.
- "Annibendod" difrifol yng nghartref yr unigolyn fel nad oes modd ei ddefnyddio mwyach fel lle byw hyfyw;
- Trallod sylweddol neu amhariad ar waith neu fywyd cymdeithasol (Kelly 2010).

## 5.0 Nodweddion Cyffredinol Celcio

- Ofn a gorbryder: gall celcio gorfodol ddeillio o ymddygiad a ddysgwyd neu yn dilyn digwyddiad arwyddocaol megis profedigaeth. Mae'r unigolyn sy'n celcio yn credu y bydd prynu neu gadw pethau'n lleddfu eu hofn a'u gorbryder. Mae'r celcio i bob pwrpas yn dod yn gysur iddynt.

- Gall unrhyw ymdrech i gael gwared â phethau sydd wedi'u celcio achosi teimladau sy'n amrywio o orbryder ysgafn i bwl o banig llwyr gan achosi chwysu a chrychguriadau'r galon.

- Patrwm o ymddygiad hirdymor: o bosib wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd, neu ddegawdau o "brynu a gollwng". Casglu a chadw pethau, gan fethu â chael gwared ar ddim byd heb brofi ofn a gorbryder.

- Ymlyniad gormodol at eiddo: Gall pobl sy'n celcio fod ag ymlyniad emosiynol amhriodol at eitemau.

- Amhendantrwydd: mae pobl sy'n celcio'n ei chael yn anodd penderfynu cael gwared ar eitemau nad oes mo'u hangen mwyach, gan gynnwys sbwriel.

- Safonau llym: Mae pobl sy'n celcio'n aml yn pigo beiau pobl eraill, ac yn mynnu eu bod yn rhagori ar bethau a hwythau'n cael trafferth cadw trefn ar eu hunain a chyflawni tasgau beunyddiol.
- Arwahanrwydd cymdeithasol: bydd pobl sy'n celcio fel arfer yn dieithrio teulu a ffrindiau ac o bosib yn teimlo gormod o gywilydd i gael ymwelwyr. Efallai y byddant yn gwrthod ymweliadau cartref gan weithwyr proffesiynol, gan ffafrio apwyntiadau swyddfa.

- Nifer fawr o anifeiliaid anwes: gall pobl sy’n celcio fod â nifer fawr o anifeiliaid a all fod yn destun cwynion gan gymdogion. Gallant fod yn “achubwyr anifeiliaid strae” hunanaddefedig.

- Galluedd Meddyliol: Mae pobl sy’n celcio fel arfer yn gallu gwneud penderfyniadau nad ydynt yn gysylltiedig â’r celcio. Rhaid rhagdybio galluedd oni phrofir fel arall. Gall y rhai sy'n celcio hefyd feddu ar y gallu i benderfynu celcio er gwaethaf y risgiau.

- Annibendod eithafol: Gall ymddygiad celcio atal sawl neu bob ystafell yn eiddo’r unigolyn rhag cael eu defnyddio at y dibenion arferol.

- Corddi: Gall ymddygiad celcio olygu symud eitemau o un rhan o eiddo unigolyn i ran arall, heb daflu unrhyw beth.

- Hunanofal: gall unigolyn sy’n celcio edrych yn flêr ac anniben, oherwydd diffyg cyfleusterau ymolchi neu doiled yn eu cartref. Fodd bynnag, mae rhai pobl sy'n celcio yn defnyddio cyfleusterau cyhoeddus, er mwyn cynnal eu hylendid a’u hymddangosiad personol.

- Diffyg dealltwriaeth: ni fydd pobl sy’n celcio fel arfer yn gweld dim o’i le â’u hymddygiad a’r effaith y mae’n ei gael arnynt hwy ac eraill.

## 6.0 Beth yw Anhwylder Celcio?

6.1 Arferai Anhwylder Celcio gael ei ystyried yn fath o anhwylder gorfodaeth obsesiynol (OCD). Fodd bynnag, caiff celcio ei ystyried bellach yn anhwylder meddwl annibynnol ac mae wedi’i nodi yn 11eg fersiwn y Dosbarthiad Rhyngwladol o Glefydau.

6.2 Fodd bynnag, gall celcio hefyd fod yn symptom o anhwylderau meddwl eraill, a byddai’n ofynnol i’r asesydd risg/cydlynydd gofal neu’r unigolyn ofyn i Feddyg Teulu eu hatgyfeirio at y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHT). Byddai hyn yn galluogi asesiad ar gyfer celcio neu ddiagnosis arall, ac felly mynediad i ddulliau therapiwtig posibl. Mae Anhwylder Celcio yn wahanol i'r weithred o gasglu, ac mae hefyd yn wahanol i bobl y mae eu heiddo yn gyffredinol anniben neu'n flêr. Nid ffordd o fyw ddewisol ydyw. Y prif wahaniaeth rhwng celciwr a chasglwr yw bod gan gelcwyr ymlyniad emosiynol cryf at eu gwrthrychau sydd ymhell uwchlaw eu gwerth go iawn.

6.3 Nid yw celcio’n rhywbeth sy’n benodol i ryw, oedran, ethnigrwydd, statws economaidd-gymdeithasol, hanes addysgol/galwedigaethol neu fath o ddeiliadaeth.

6.4 Gellir celcio unrhyw beth mewn amrywiaeth o lefydd, gan gynnwys yn eiddo’r preswylydd, mewn gardd neu mewn man cymunedol. Mae pobl yn celcio pob math o bethau, ond maent fel arfer yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i ddau gategori:

Celcio Sych

- Dillad

- Papurau newydd, cylchgronau, llyfrau neu ffotograffau
- Biliau, derbynebau neu lythyrau
- Bagiau plastig a bocsys
- Offer meddygol
- Pethau y gellir eu casglu fel teganau, fideos, DVDs neu gryno-ddisgiau.

**Celcio Gwlyb**

- Bwyd a chynwysyddion bwyd
- Ysgarthion ac wrin
- Anifeiliaid

## 7.0 Mathau o Gelcio

7.1 Mae tri math o gelcio:

**Gwrthrychau difywyd**

Dyma'r pethau mwyaf cyffredin. Gallai hyn gynnwys un math o wrthrych neu gasgliad o gymysgedd o wrthrychau fel hen ddillad, papurau newydd, bwyd, cynwysyddion neu bapurau.

**Celcio Anifeiliaid**

Mae celcio anifeiliaid ar gynnydd. Obsesiwn yw hyn ble mae pobl yn casglu anifeiliaid a hwythau'n aml iawn yn methu â gofalu amdanynt i safon dderbyniol. Nid yw'r celciwr yn medru gweld bod yr anifeiliaid mewn perygl gan eu bod nhw'n teimlo eu bod yn eu hachub nhw. Yn ogystal â methu â gofalu am yr anifeiliaid yn y cartref, nid yw pobl sy'n celcio anifeiliaid yn medru gofalu amdanynt eu hunain chwaith yn aml iawn. Yn ogystal, caiff cartrefi celcwyr anifeiliaid yn aml eu dinistrio yn y pen draw wrth i ysgarthion anifeiliaid a phryfaid gronni yno.

**Celcio Data**

Celcio data (e-gelcio, seibr gelcio) yw casglu a chadw gormod o ddata. O bosib y bydd defnyddwyr yn cadw deunydd electronig, er nad ydynt eu hangen mwyach. Mae amharodrwydd i gael gwared ar unrhyw beth fel arfer yn arwain at annibendod (ar gyfer celcio materol beth bynnag). Nid oes llawer o ymchwil wedi'i wneud ar y mater hwn ac efallai nad yw'n ymddangos yn gymaint o broblem â chelcio difywyd ac anifeiliaid, ond gall pobl gelcio data am yr un rhesymau â phobl sy'n celcio pethau eraill, gan rannu'r un symptomau. Gall celcio data gynnwys storio offer casglu data megis cyfrifiaduron,

dyfeisiadau storio electronig neu bapur. Mae’n ymwneud â’r angen i gadw copïau o e-byst a gwybodaeth arall ar ffurf electronig.

## 8.0 Galluedd Meddyliol

8.1 Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu fframwaith statudol ar gyfer pobl sydd heb alluedd i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae gan y ddeddf 5 egwyddor statudol a dyma'r gwerthoedd sy'n sail i ofynion cyfreithiol y ddeddf. Sef:

1. Dylid tybio fod gan yr unigolyn alluedd oni bai y pennir nad oes ganddynt alluedd.

2. Ni ddylid trin unigolyn fel un sy'n methu â gwneud penderfyniad oni bai fod pob cam ymarferol wedi'i gymryd heb lwyddiant.

3. Ni ddylid trin unigolyn fel un sy'n methu â gwneud penderfyniad ar y sail eu bod wedi gwneud penderfyniad annoeth yn unig.

4. Dylai gweithred neu benderfyniad a wneir, o dan y ddeddf hon ar gyfer neu ar ran unigolyn sydd heb alluedd, gael ei wneud er budd pennaf yr unigolyn.

5. Cyn cyflawni'r weithred, neu wneud y penderfyniad, rhaid rhoi sylw i p'un a ellir cyflawni’r diben sydd ei angen yn effeithiol mewn modd sydd ddim yn cyfyngu’n ormodol ar hawliau a rhyddid yr unigolyn.

8.2 Pan fydd ymddygiad celcio unigolyn yn peri risg sylweddol i’w hiechyd a’u diogelwch, bydd angen ymyrraeth broffesiynol. Ac eithrio gofynion statudol, rhaid i unrhyw ymyriad neu weithred arfaethedig fod gyda chaniatâd y dinesydd. Mewn achosion eithafol o ymddygiad celcio, dylai natur y sefyllfa annog gweithwyr proffesiynol i gwestiynu a oes gan y dinesydd y galluedd i gydsynio i'r weithred neu’r ymyrraeth arfaethedig a sbarduno asesiad o alluedd. Caiff hyn ei gadarnhau gan god ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol, sy'n nodi mai un o'r rhesymau pam y gallai pobl gwestiynu galluedd rhywun i wneud penderfyniad penodol yw "bod ymddygiad neu amgylchiadau'r unigolyn yn achosi amheuaeth ynghylch p'un a oes ganddo’r galluedd i wneud penderfyniad" (Cod Ymarfer MCA 4.35, t. 52). Gellir dadlau bod ymddygiad celcio eithafol yn bodloni’r meini prawf hwn.

8.3 Mae'n rhaid i unrhyw asesiad o alluedd a wneir mewn perthynas ag ymddygiad celcio fod yn benodol i amser, ac yn berthnasol i ymyrraeth neu weithred benodol. Y gweithiwr proffesiynol sy’n gyfrifol am gynnal yr asesiad galluedd fydd yr unigolyn sy'n cynnig yr ymyrraeth neu'r weithred benodol, a chyfeirir ato fel y "penderfynwr". Er y bydd angen o bosib i'r penderfynwr geisio cefnogaeth gan weithwyr proffesiynol eraill yn y tîm amlddisgyblaethol, nhw sy’n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol ynghylch galluedd unigolyn.

8.4 Os nad oes gan y dinesydd y galluedd i roi caniatâd ar gyfer y weithred neu ymyriad penodol, mae’n rhaid i’r penderfynwr ddangos eu bod nhw wedi bodloni gofynion y

"restr wirio" er y budd pennaf". Oherwydd cymhlethdod achosion o'r fath, rhaid cael cyfarfod budd pennaf, wedi'i gadeirio gan reolwr tîm, i oruchwylio'r broses.

8.5 Mewn achosion arbennig o heriol a chymhleth, efallai y bydd angen i'r awdurdod lleol atgyfeirio at y Llys Gwarchod i wneud penderfyniad er y budd pennaf.

Dylid trafod unrhyw atgyfeiriad i'r Llys Gwarchod gyda gwasanaethau cyfreithiol a'r rheolwr gwasanaeth perthnasol.

## 9.0. Rhannu Gwybodaeth

9.1. O dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018, mae gennym oll gyfrifoldeb i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu'n gyfreithlon ac yn deg. Mae gan bob dinesydd yr hawl i weld unrhyw wybodaeth a gedwir amdanynt. Dylai ymarferwyr ystyried hyn pan fyddant yn cofnodi gwybodaeth am yr unigolyn hwnnw.

9.2 Mae angen i bob asiantaeth sicrhau, lle byddwn yn penderfynu ei bod yn briodol rhannu gwybodaeth am eiddo wedi'u celcio gydag asiantaethau eraill, ein bod yn gwneud hyn ar sail angen gwybod. Dylai'r holl wybodaeth gael ei throsglwyddo mewn fformat diogel.

9.3 At ddibenion y protocol hwn, cynhelir y datganiad rhannu gwybodaeth dan Weithdrefnau Diogelu Cymru er mwyn "amddiffyn oedolion mewn perygl, a gweithdrefnau i ddiogelu oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth".

"Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu o fewn a rhwng sefydliadau yn unol â'r egwyddorion a nodir isod."

- Mae gan oedolion hawl i annibyniaeth, dewis a hunan-benderfyniad. Mae'r hawl hwn yn ymestyn iddynt allu cael rheolaeth dros wybodaeth amdanyn nhw eu hunain ac i benderfynu pa wybodaeth a gaiff ei rhannu. Hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i gael caniatâd ysgrifenedig cyn rhannu gwybodaeth, mae'n arfer dda gwneud hynny.

- Dylid ystyried dymuniadau'r dinesydd bob amser. Fodd bynnag, mae amddiffyn oedolion sydd mewn perygl yn sefydlu egwyddor gyffredinol y gall digwyddiad o gamdriniaeth amheus neu wirioneddol gael ei adrodd yn ehangach, ac wrth wneud hynny, efallai y bydd angen rhannu rhywfaint o wybodaeth ymhlith y rhai perthnasol.
- Mae gwybodaeth a roddir i aelod unigol o staff yn perthyn i'r sefydliad ac nid i'r gweithiwr unigol. Ni all gweithiwr unigol roi sicrwydd personol o gyfrinachedd i oedolyn mewn perygl.

- Dylai sefydliad gael caniatâd ysgrifenedig gan yr oedolyn mewn perygl ar gyfer rhannu gwybodaeth a dylai egluro fel mater o drefn pa wybodaeth y gellir ei rhannu gyda phobl neu sefydliadau eraill.

- Ni ddylai anawsterau wrth weithio o fewn yr egwyddorion o gynnal cyfrinachedd oedolyn arwain at fethiant i gymryd camau i amddiffyn yr oedolyn rhag camdriniaeth neu niwed.

9.4. Caiff y penderfyniadau ynghylch pa wybodaeth a gaiff ei rhannu a chyda phwy eu gwneud fesul achos. P'un a gaiff gwybodaeth ei rhannu gyda neu heb ganiatâd gan yr oedolyn mewn perygl, dylai'r wybodaeth a rennir fod yn:

- angenrheidiol ar gyfer y diben y caiff ei rhannu.
- cael ei rhannu gyda'r rhai sydd ei hangen yn unig.
- cywir a chyfredol.
- cael ei rhannu mewn modd amserol.
- cael ei rhannu’n gywir.
- cael ei rhannu’n ddiogel.

## 10.0 Diogelwch Tân

10.1 Mae celcio yn peri risg sylweddol i'r sawl sy'n byw yn yr eiddo sydd wedi’i gelcio a’r sawl sy’n byw gerllaw. Pan fydd eiddo wedi’i gelcio’n cael ei nodi, waeth beth fo’r sgôr risg, mae angen hysbysu’r unigolion o’r risg uwch a nodi allanfa ddiogel. Mae’n rhaid ceisio cyngor proffesiynol ar ddiogelwch tân, a dylid rhannu gwybodaeth â’r gwasanaethau brys priodol, trwy eu rhybuddio am eiddo sydd wedi’u celcio. Bydd hyn yn caniatáu i staff y gwasanaeth tân ymateb yn briodol drwy gynnal archwiliad Diogelwch yn y Cartref gyda’r preswylydd a gosod synhwyrydd mwg ychwanegol os bydd angen. Yna, gellir tagio’r cyfeiriad gyda system reoli’r gwasanaeth tân, yn seiliedig ar bryder ynglŷn â diogelwch, er mwyn rhybuddio criwiau fydd yn mynd yno. Unwaith y bydd eiddo wedi’u clirio, rhaid i'r wybodaeth gael ei diweddaru. Efallai y bydd Gwiriad Diogelwch y Cartref gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn briodol. (Gweler Atodiad 2). Er yn ddelfrydol, nid oes gan y gwasanaeth tân unrhyw “hawl” cyfreithiol i fynychu a chynnal Gwiriad Diogelwch y Cartref, rhwymedigaeth yn unig ydyw tuag at eu hymrwymiad i atal a’u dyletswydd gofal i bawb.

## 11.0 Pwerau Iechyd yr Amgylchedd

### Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936

### Adran 79: Pŵer i fynnu bod meddiannydd y safle yn cael gwared ar fater niweidiol

Bydd yr Awdurdod Lleol (ALl) bob amser yn ceisio gweithio gyda deiliad tŷ i nodi ateb i eiddo wedi’i gelcio. Fodd bynnag, mewn achosion lle nad yw'r preswylydd yn barod i gydweithredu, gall yr ALl gyflwyno rhybudd i'r perchennog neu'r meddiannydd i "gael gwared ar groniadau o fater niweidiol". Ni ddiffinnir niweidiol, ond mae fel arfer yn "niweidiol, afiach". Os na chydymffurfir o fewn 24 awr, gall yr ALl gwblhau’r gwaith yn ddiofyn ac adennill costau.

**Adran 83: Glanhau eiddo budr neu ferminog lle mae unrhyw fangre, pabell, fan, sied, llong neu gwch naill ai;**

a) mor fudr neu afiach fel ei fod yn niweidiol i iechyd; neu

b) yn ferminog (yn ymwneud â llygod mawr, llygod, plâu eraill gan gynnwys pryfed, eu hwyau a'u larfae)

Bydd yr ALl yn cyflwyno rhybudd yn gofyn am glirio deunyddiau a gwrthrychau budr, glanhau arwynebau, carpedi ac ati o fewn 24 awr neu fwy. Os na chydymffurfir â hynny, gall Iechyd yr Amgylchedd gyflawni gwaith yn ddiofyn a chodi tâl amdano. Ni ellir apelio yn erbyn rhybudd ond gellir apelio yn erbyn y gost a rhesymoldeb y gwaith ar y rhybudd.

**Adran 84: Glanhau neu ddinistrio eitemau budr neu ferminog**

Gall yr ALl gyflwyno rhybudd a chael gwared ar, glanhau, puro, diheintio neu ddinistrio unrhyw eitem sydd mor fudr fel bod angen ei lanhau neu ei ddinistrio er mwyn atal anaf i'r bobl yn yr eiddo, neu sy'n ferminog, gan dalu'r gost eu hunain.

**Deddf Atal Difrod gan Blâu 1949**

**Adran 4: Pŵer yr ALl i ofyn am weithredu i atal neu drin Llygod mawr a Llygod**

Gellir cyflwyno rhybudd ar dir/safle'r perchennog neu'r meddiannydd lle mae llygod mawr a/neu lygod yn bresennol oherwydd yr amodau ar y pryd. Gellir cyflwyno'r rhybudd i'r perchennog neu'r meddiannydd a darparu cyfnod rhesymol o amser i gynnal gwaith rhesymol i drin y llygod mawr a/neu'r llygod, symud deunyddiau a allai eu bwydo neu roi lloches iddynt a gwneud gwaith strwythurol. Gall yr ALl gyflawni gwaith yn ddiofyn a chodi tâl amdano.

**Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990**

**Adran 80: Delio â Niwsans Statudol**

Caiff Niwsans Statudol eu diffinio yn adran 79 o'r Ddeddf ac maent yn cynnwys unrhyw weithred neu anwaith mewn safleoedd sy'n atal gweithgareddau a defnydd arferol o safleoedd eraill, gan gynnwys y canlynol:

**Adran 79 (1):** (a) unrhyw safle sydd mewn cyflwr a fydd yn niweidiol i iechyd neu'n niwsans

(c) mygdarth neu nwyon a ollyngir o safle [anheddau preifat] sy'n niweidiol i iechyd neu'n niwsans

(e) unrhyw groniad neu ddyddodion sy'n niweidiol i iechyd neu'n niwsans

(f) unrhyw anifail a gedwir mewn lle neu fodd sy'n niweidiol i iechyd neu'n niwsans

Bydd yr ALl yn cyflwyno Hysbysiad Atal dan adran 80 i leihau'r niwsans os yw'n bodoli ar y pryd neu i'w atal rhag digwydd neu ailddigwydd.

Mewn amgylchiadau eithriadol, lle bo’r risg mor uchel, bydd rhaid i Adain yr Amgylchedd fynd i mewn i’r eiddo ac yna cynnal cyfarfod yn ddiweddarach i sicrhau bod gwasanaethau/cymorth ar waith i gynorthwyo’r dinesydd.

## 12.0 Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl

12.1 Bydd y protocol hwn yn cyd-fynd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 o ran nodi plant ac oedolion mewn perygl yn ôl diffiniad y gweithdrefnau:

12.2 Mae Diogelu yn cyfeirio at amddiffyn plant ac oedolion rhag camdriniaeth neu esgeulustod, atal amhariad ar eu hiechyd neu eu datblygiad a sicrhau bod plant yn tyfu i fyny, a bod oedolion yn byw o dan amgylchiadau sy'n gyson â darpariaeth gofal ddiogel ac effeithiol. Gall tyfu i fyny neu fyw mewn eiddo sydd wedi’i gelcio roi plentyn neu oedolyn mewn perygl sy’n fater diogelu.

12.3 Mae’n rhaid blaenoriaethu anghenion plentyn neu oedolyn mewn perygl, ac mae unrhyw gamau a gymerwn yn adlewyrchu hyn. Felly, pan fo plant neu oedolion mewn perygl yn byw yn yr eiddo, dylid bob amser cyflwyno rhybudd neu adroddiad Diogelu.


## 14.0 Ymateb Aml-asiantaeth

Cydnabyddir bod celcio yn gyflwr cymhleth ac y bydd amrywiaeth o asiantaethau yn dod i gysylltiad â’r un unigolyn. Cydnabyddir hefyd na fydd pob unigolyn yn cael cymorth gan wasanaethau statudol megis Iechyd Meddwl.

Dylai unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n gweithio gydag unigolion a allai fod â chyflwr celcio neu'n ymddangos felly sicrhau eu bod nhw’n cwblhau'r Asesiad Ymarferwyr a defnyddio'r pecyn cymorth delweddau mesur annibendod i benderfynu pa gamau i'w cymryd.

Dylai tystiolaeth o gelcio anifeiliaid ar unrhyw lefel gael ei adrodd i'r RSPCA.

## 15.0 Continwwm Ymddygiad Celcio




Defnyddiwch y delweddau mesur annibendod i asesu lefel problem celcio'r dinesydd:

Mae delweddau 1-3 yn dynodi lefel 1


Mae delweddau 4-6 yn dynodi lefel 2

Mae delweddau 7-9 yn dynodi lefel 3

Yna edrychwch ar y canllaw sy’n cyd-fynd â’r raddfa ar yr offeryn asesu annibendod, sy’n nodi’r camau priodol y dylech eu cymryd. Dylech gofnodi’r holl gamau gweithredu a gymerwyd ar system gofnodi’r asiantaeth, gan fanylu ar sgyrsiau gyda gweithwyr proffesiynol eraill, y camau a gymerwyd a'r camau sydd eto i'w cymryd.

**Ystafell wely**

Dewiswch y llun sy'n adlewyrchu’n fwyaf cywir faint o annibendod sydd yn yr ystafell



## Y Lolfa


1


2


3


4


5


6


7


8



9

## Y Gegin



1



2



3



4



5



6



7



8



9

## 16. Canllawiau Offeryn Asesu

| | |
|---|---|
| **1. Strwythur, gwasanaethau a gardd yr eiddo** | - Asesu'r mynediad i'r holl fynedfeydd ac allanfeydd ar gyfer yr eiddo. (Nodwch yr effaith ar unrhyw fynedfeydd ac allanfeydd cymunedol). Cofiwch gynnwys y mynediad i ofod y to.<br>- A oes gan yr eiddo larwm mwg?<br>- Asesiad Gweledol (heb fod yn broffesiynol) o gyflwr y gwasanaethau (NPVAS) yn yr eiddo e.e. plymio, trydan, nwy, system aerdymheru, gwresogi - bydd hyn yn helpu i lywio eich cam gweithredu nesaf.<br>- A yw'r gwasanaethau wedi'u cysylltu?<br>- Asesu'r ardd o ran ei maint, y mynediad iddi a'i chyflwr. |
| **2. Swyddogaethau'r Cartref** | - Asesu ymarferoldeb presennol yr ystafelloedd a'r diogelwch ar gyfer eu defnydd arfaethedig, e.e. a ellir defnyddio'r gegin yn ddiogel ar gyfer coginio neu a yw lefel yr annibendod yn yr ystafell yn atal hyn.<br>- Dewis y sgôr briodol ar y raddfa annibendod.<br>- Amcangyfrif y % o arwynebedd llawr y mae'r annibendod yn ei orchuddio.<br>- Amcangyfrifwch uchder yr annibendod ym mhob ystafell. |

| | |
|---|---|
| **1. Strwythur, gwasanaethau a gardd yr eiddo** | Asesu'r mynediad i'r holl fynedfeydd ac allanfeydd ar gyfer yr eiddo. (Nodwch yr effaith ar unrhyw fynedfeydd ac allanfeydd cymunedol). Cofiwch gynnwys y mynediad i ofod y to.<br>A oes gan yr eiddo larwm mwg?<br>Asesiad Gweledol (heb fod yn broffesiynol) o gyflwr y gwasanaethau (NPVAS) yn yr eiddo e.e. plymio, trydan, nwy, system aerdymheru, gwresogi - bydd hyn yn helpu i lywio eich cam gweithredu nesaf. |
| **3. Iechyd a Diogelwch** | Aseswch lefel y glanweithdra yn yr eiddo. A yw'r lloriau'n lân?<br>A yw'r arwynebau gwaith yn lân?<br>Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw arogleuon yn yr eiddo?<br>A oes bwyd sy'n pydru?<br>A yw'r preswylydd yn defnyddio canhwyllau?<br>A welsoch chi fwy o bryfed na'r disgwyl?<br>A yw aelodau'r cartref yn cael trafferth gyda gofal personol?<br>A oes ysgrifen anhrefnus ar waliau'r eiddo?<br>A oes symiau afresymol o feddyginiaeth wedi'u casglu? Rhai rhagnodedig neu dros y cownter?<br>A yw'r preswylydd yn ymwybodol o unrhyw risg o dân sy'n gysylltiedig â'r annibendod yn yr eiddo? |
| **4. Diogelu Plant ac Aelodau'r teulu** | A oes unrhyw ystafelloedd yn cyrraedd 7 neu uwch ar y raddfa mesur annibendod? A oes plant neu oedolion sydd mewn perygl yn y cartref? |
| **5. Anifeiliaid a Phlâu** | A oes unrhyw anifeiliaid anwes yn yr eiddo?<br>A yw'r anifeiliaid anwes yn cael gofal da; ydych chi'n pryderu am eu hiechyd?<br>A oes tystiolaeth o unrhyw blâu? e.e. llau gwely, llygod mawr, llygod, ac ati<br>A yw anifeiliaid yn cael eu celcio yn yr eiddo?<br>A yw ardaloedd awyr agored yn cael eu hystyried yn ardaloedd bywyd gwyllt gan y preswylydd?<br>A yw'r preswylydd yn gadael bwyd allan yn yr ardd i fwydo llwynogod ac ati? |
| **6. Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)** | Yn dilyn eich asesiad, ydych chi'n argymell y defnydd o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gyfer ymweliadau yn y dyfodol? Rhowch fanylion<br>Yn dilyn eich asesiad, ydych chi'n argymell ymweld â'r preswylydd mewn parau?<br>Rhowch fanylion |

| **Lefel 1**<br><br>***Delwedd Mesur Annibendod Sgôr 1 - 3*** | Ystyrir bod amgylchedd y cartref yn safonol.<br>Nid oes angen cymorth arbenigol. Os yw'r preswylydd yn dymuno cael rhywfaint o gymorth gyda gwaith tŷ cyffredinol neu'n teimlo ei fod yn dirywio tuag at raddfa annibendod uwch, gellir gwneud atgyfeiriadau priodol yn amodol ar oedran ac amgylchiadau. |
|---|---|
| **1. Strwythur, gwasanaethau a gardd yr eiddo** | • Mae'r holl fynedfeydd ac allanfeydd, grisiau, y gofod yn y to a'r ffenestri yn hygyrch.<br>• Mae larymau mwg wedi'u gosod ac yn gweithio, neu mae atgyfeiriadau wedi'u gwneud i'r frigâd dân ymweld a'u gosod.<br>• Mae'r holl wasanaethau'n weithredol ac wedi'u cynnal mewn cyflwr da.<br>Mae'r ardd yn hygyrch, yn daclus ac wedi'i chynnal. |

| Lefel 1<br><br>***Delwedd Mesur Annibendod Sgôr 1 - 3*** | Ystyrir bod amgylchedd y cartref yn safonol.<br>Nid oes angen cymorth arbenigol. Os yw'r preswylydd yn dymuno cael rhywfaint o gymorth gyda gwaith tŷ cyffredinol neu'n teimlo ei fod yn dirywio tuag at raddfa annibendod uwch, gellir gwneud atgyfeiriadau priodol yn amodol ar oedran ac amgylchiadau. |
|---|---|
| **2. Swyddogaethau'r Cartref** | • Dim annibendod gormodol, gellir defnyddio pob ystafell yn ddiogel ar gyfer eu pwrpas arfaethedig.<br>• Mae pob ystafell yn cael sgôr 0-3 ar y Raddfa Mesur Annibendod.<br>• Does dim offer cartref ychwanegol heb eu defnyddio i'w gweld mewn lleoliadau anarferol o gwmpas yr eiddo.<br>• Mae'r eiddo'n cael ei gynnal o fewn telerau unrhyw gytundebau prydles neu denantiaeth lle bo hynny'n briodol.<br>• Nid yw'r eiddo mewn perygl o weithrediad gan Iechyd yr Amgylchedd. |
| **3. Iechyd a Diogelwch** | • Mae'r eiddo'n lân, heb unrhyw arogleuon (anifeiliaid anwes neu arogleuon eraill).<br>• Dim bwyd sy'n pydru.<br>• Dim defnydd pryderus o ganhwyllau.<br>• Dim pryder ynghylch pryfed.<br>• Mae'r preswylwyr yn ymdopi â gofal personol.<br>• Dim ysgrifennu ar y waliau.<br>• Mae symiau o feddyginiaeth o fewn terfynau priodol, yn gyfredol ac wedi'u storio'n briodol. |
| **4. Diogelu Plant ac Aelodau'r teulu** | • Dim pryderon am aelodau'r cartref. |
| **5. Anifeiliaid a Phlâu** | • Mae unrhyw anifeiliaid anwes sydd yn yr eiddo yn cael gofal da.<br>• Nid oes unrhyw blâu na heigiadau yn yr eiddo. |
| **6. Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)** | • Nid oes angen cyfarpar diogelu personol.<br>• Nid oes angen cynnal ymweliadau mewn parau. |

| **Lefel 1** | **Camau Gweithredu** |
|---|---|
| **Asiantaeth Atgyfeirio** | ▯ Trafodwch bryderon gyda'r preswylydd.<br>▯ Gwnewch gais i'r Frigâd Dân ddarparu cyngor ar ddiogelwch tân.<br>▯ Gwnewch atgyfeiriad ar gyfer asesiad cefnogaeth os yw'n briodol.<br>▯ Gwnewch atgyfeiriad at y meddyg teulu os yw'n briodol.<br>▯ Gwnewch atgyfeiriad at y Gwasanaethau Cymdeithasol, os yw'n briodol ar gyfer unigolyn sydd neu a fydd o bosibl yn dod yn gelciwr, er mwyn iddynt gael cymorth a/neu ymyrraeth. |
| **Iechyd yr Amgylchedd** | ▯ Dim Camau Gweithredu |
| **Landlordiaid Cymdeithasol** | ▯ Rhowch fanylion am gyngor ar ddyledion os yw'n briodol i'r amgylchiadau<br>▯ Gwnewch atgyfeiriad at y meddyg teulu os yw'n briodol.<br>▯ Gwnewch atgyfeiriad ar gyfer asesiad cefnogaeth os yw'n briodol. |

| | |
|---|---|
| | - Rhowch fanylion am ffrydiau cymorth agored i'r preswylydd drwy elusennau a grwpiau hunangymorth.<br>- Rhowch fanylion am gyngor ar ddyledion os yw'n briodol i'r amgylchiadau.<br>- Sicrhewch fod y trigolion yn cynnal yr holl amodau tenantiaeth. |
| **Ymarferwyr** | - Cwblhewch yr Asesiad Celcio.<br>- Gwnewch atgyfeiriadau priodol ar gyfer cefnogaeth.<br>- Gwnewch atgyfeiriad at landlord cymdeithasol os yw'r unigolyn yn denant neu'n lesddeiliad. |
| **Y Gwasanaethau Brys** | - Sicrhewch fod gwybodaeth yn cael ei rhannu gydag asiantaethau statudol ac y rhoddir adborth i'r asiantaeth atgyfeirio ar ôl cwblhau ymweliadau cartref. |
| **Lles Anifeiliaid** | - Nid oes angen gweithredu oni bai y gofynnir am gyngor. |
| **Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol-adroddiadau Plant ac Oedolion mewn Perygl** | - Nid oes angen gweithredu oni nodir pryderon eraill o gamdriniaeth. |

| **Lefel 2**<br><br>***Delwedd Mesur Annibendod Sgôr 4 – 6*** | **Mae angen cymorth proffesiynol ar amgylchedd y cartref i ddatrys y problemau sy'n ymwneud ag annibendod a chynnal a chadw yn yr eiddo.** |
|---|---|
| **1. Strwythur, gwasanaethau a gardd yr eiddo** | • Mae'r brif allanfa wedi'i rhwystro.<br>• Dim ond un o'r gwasanaethau sydd ddim yn gwbl weithredol.<br>• Pryder nad yw'r gwasanaethau wedi'u cynnal yn dda.<br>• Nid oes larymau mwg wedi'u gosod neu nid ydynt yn gweithio.<br>• Nid yw'r ardd yn hygyrch oherwydd annibendod, neu nad yw'n cael ei chynnal.<br>• Tystiolaeth o eitemau sydd i fod dan do yn cael eu storio y tu allan.<br>• Tystiolaeth o fân ddifrod strwythurol gan gynnwys tamprwydd.<br>• Drysau mewnol ar goll neu wedi'u rhwystro ar agor.<br>• |
| **2. Swyddogaethau'r Cartref** | • Mae'r annibendod yn achosi gorlawnder yn y mannau byw ac yn cael effaith ar y defnydd o'r ystafelloedd ar gyfer eu pwrpas arfaethedig.<br>• Mae'r annibendod yn achosi gorlawnder rhwng yr ystafelloedd a'r mynedfeydd.<br>• Mae'r ystafell(oedd) yn sgorio rhwng 4 - 5 ar y raddfa annibendod.<br>• Mae lefelau anghyson o gadw tŷ trwy'r eiddo.<br>• Nid yw rhai offer cartref yn gweithio'n iawn ac efallai bod unedau ychwanegol mewn mannau anarferol.<br>• Nid yw'r eiddo'n cael ei gynnal o fewn telerau cytundeb y brydles neu'r denantiaeth, lle bo hynny'n briodol.<br>• Tystiolaeth o eitemau awyr agored yn cael eu storio dan do. |

| | |
|---|---|
| **3. Iechyd a Diogelwch** | • Nid yw'r gegin a'r ystafell ymolchi'n cael eu cadw'n lân.<br>• Mae arogleuon drwg yn yr eiddo.<br>• Nid yw'r preswylydd yn cynnal amgylchedd coginio diogel.<br>• Mae peth pryder o ran nifer y meddyginiaethau, neu'r modd y cânt eu storio neu eu dyddiad terfyn.<br>• Dim bwyd sy'n pydru.<br>• Dim defnydd pryderus o ganhwyllau.<br>• Preswylydd yn ceisio rheoli gofal personol ond yn cael trafferth.<br>• Dim ysgrifennu ar y waliau. |
| **4. Diogelu Plant ac Aelodau'r teulu** | • Nid yw celcio ar raddfa 4 - 7 yn arwain ar Rybudd Diogelu yn awtomatig.<br>• Nodwch yr holl bryderon ychwanegol ar gyfer deiliaid tai.<br>• Gall eiddo â phlant neu breswylwyr diamddiffyn ag anghenion cymorth ychwanegol sbarduno Rhybudd Diogelu o dan risg wahanol. |
| **5. Anifeiliaid a Phlâu** | • Nid yw anifeiliaid anwes yn yr eiddo yn derbyn gofal da.<br>• Nid yw'r preswylydd yn gallu rheoli'r anifeiliaid.<br>• Nid yw ardal fyw yr anifail yn cael ei chynnal ac mae'n arogleuo.<br>• Ymddengys bod yr anifeiliaid yn cael gormod neu dim digon o fwyd.<br>• Mae llygod i'w clywed yn yr eiddo.<br>• Mae gweoedd pry cop yn y tŷ.<br>• Mae rhywfaint o blâu pryfed (llau gwely, llau, chwain, chwilod du, morgrug, ac ati).<br>• |
| **6. Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)** | • Menig Latex, esgidiau mawr neu esgidiau diogel rhag nodwyddau, masg wyneb, hylif diheintio dwylo, hylif cadw pryfed draw.<br>• Mae angen Cyfarpar Diogelu Personol. |

| **Lefel 2** | **Camau Gweithredu**<br>**Yn ogystal â'r camau gweithredu a restrir isod, mae angen monitro'r achosion hyn yn rheolaidd yn y dyfodol oherwydd**<br>**RISG O WAETHYGIAD neu AILDDIGWYDD** |
|---|---|
| **Asiantaeth Atgyfeirio** | • Gwnewch atgyfeiriad at y landlord os yw'r preswylydd yn denant.<br>• Gwnewch atgyfeiriad at Iechyd yr Amgylchedd os yw'r preswylydd yn rydd-ddeiliad.<br>• Gwnewch gais i'r Frigâd Dân roi cyngor ar atal tân.<br>• Rhowch fanylion am wasanaethau gardd.<br>• Gwnewch atgyfeiriad ar gyfer asesu cefnogaeth.<br>• Gwnewch atgyfeiriad at y meddyg teulu.<br>• Gwnewch atgyfeiriad at gyngor ar ddyledion os yw'n briodol.<br>• Gwnewch atgyfeiriad at Sefydliad lles anifeiliaid os oes anifeiliaid yn yr eiddo.<br>• Sicrhewch eich bod yn rhannu gwybodaeth gyda phob asiantaeth gysylltiedig i sicrhau dull cydweithredol a phenderfyniad cynaliadwy.<br>• Gwnewch atgyfeiriad at y Gwasanaethau Cymdeithasol, os yw'n briodol ar gyfer dinesydd sydd neu a fydd o bosibl yn dod yn gelciwr, er mwyn iddynt gael cymorth a/neu ymyrraeth. |

| | |
|---|---|
| **Iechyd yr Amgylchedd** | • Gwnewch atgyfeiriad at Iechyd yr Amgylchedd gyda manylion y cleient, y landlord (os yw'n berthnasol), manylion yr atgyfeiriwr a throsolwg o'r problemau.<br>• Ar adeg yr arolygiad, bydd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn penderfynu ar y camau gweithredu priodol.<br>• Ystyriwch gyflwyno hysbysiadau o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Deddf Iechyd y Cyhoedd 1963 (adran 79 Mater niweidiol neu adran 83/84 glanhau eiddo neu lanhau/dinistrio eitemau.<br>• Deddf Atal Difrod Gan Blâu 1949 Ystyriwch waith diofyn os na fydd deiliaid yn cydymffurfio â hysbysiadau. |
| **Landlordiaid Cymdeithasol** | • Ymwelwch â'r preswylydd i archwilio'r eiddo ac asesu anghenion cefnogaeth.<br>• Sicrhewch fod y trigolion yn cynnal yr holl amodau tenantiaeth.<br>• Gorfodwch amodau tenantiaeth sy'n ymwneud â chyfrifoldebau'r preswylydd.<br>• Sicrhewch eich bod yn rhannu gwybodaeth gyda phob asiantaeth gysylltiedig i sicrhau dull cydweithredol a phenderfyniad cynaliadwy. |
| **Ymarferwyr** | • Cyfeiriwch at "Guidance for Hoarding Guidance Questions to Ask".<br>• Cwblhewch Offeryn Asesu Ymarferwyr.<br>• Sicrhewch eich bod yn rhannu gwybodaeth gyda phob asiantaeth gysylltiedig. i sicrhau dull cydweithredol a phenderfyniad cynaliadwy. |
| **Y Gwasanaethau Brys** | • Sicrhewch eich bod yn rhannu gwybodaeth gyda phob asiantaeth gysylltiedig i sicrhau dull cydweithredol a phenderfyniad cynaliadwy.<br>• Darparwch adborth i'r asiantaeth atgyfeirio ar ôl cwblhau ymweliadau cartref. |
| **Lles Anifeiliaid** | ▪ Ymwelwch â'r eiddo i gynnal gwiriad lles ar yr anifeiliaid yn yr eiddo.<br>▪ Addysgwch y cleient ynghylch lles anifeiliaid os yw'n briodol.<br>▪ Darparwch gyngor/cymorth gydag ailgartrefu anifeiliaid. |
| **Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol** |  Nid oes angen gweithredu oni nodir pryderon eraill o gamdriniaeth.<br>Os oes pryderon eraill o gamdriniaeth yn codi, neu wedi cael eu hadrodd, efallai y bydd angen symud ymlaen i wneud atgyfeiriad ac ymchwiliad diogelu. |

| Lefel 3<br><br>Delwedd Mesur Annibendod Sgôr 7 - 9 | Bydd amgylchedd y cartref yn gofyn am ymyrraeth gyda dull amlasiantaethol cydweithredol, gan gynnwys cyfranogiad gan amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol. Mae'r lefel hon o gelcio yn gyfystyr â rhybudd Diogelu oherwydd y risg sylweddol i iechyd deiliaid y cartref, a'r eiddo a phreswylwyr cyfagos. Yn aml, nid yw preswylwyr yn ymwybodol o oblygiadau eu gweithredoedd celcio ac nid ydynt yn sylwi ar y risg y mae'n ei hachosi. |
|---|---|
| **1. Strwythur, gwasanaethau a gardd yr eiddo** | • Mae mynediad i'r eiddo yn gyfyngedig oherwydd annibendod eithafol.<br>• Gellir gweld tystiolaeth o annibendod eithafol mewn ffenestri.<br>• Gellir gweld tystiolaeth o annibendod eithafol y tu allan i'r eiddo.<br>• Nid yw'r ardd yn hygyrch ac mae wedi tyfu'n wyllt.<br>• Nid yw'r gwasanaethau wedi'u cysylltu neu nid ydynt yn gweithio'n iawn.<br>• Nid oes larymau mwg wedi'u gosod neu nid ydynt yn gweithio.<br>• Mae diffyg awyru yn yr eiddo oherwydd annibendod.<br>• Tystiolaeth o ddifrod strwythurol neu waith trwsio gan gynnwys tamprwydd.<br>• Drysau mewnol ar goll neu wedi'u rhwystro ar agor.<br>• Tystiolaeth o eitemau sydd i fod dan do yn cael eu storio y tu allan. |

| | |
|---|---|
| **2. Swyddogaethau'r Cartref** | • Mae'r annibendod yn rhwystro mynediad at y mannau byw ac yn atal y defnydd o'r ystafelloedd ar gyfer eu pwrpas arfaethedig.<br>• Mae'r ystafell(oedd) yn sgorio rhwng 7 - 9 ar y raddfa delwedd annibendod.<br>• Ni chaiff yr ystafelloedd eu defnyddio ar gyfer eu dibenion arfaethedig neu maent yn gyfyngedig iawn.<br>• Ni ellir cael at y gwelyau neu nid oes modd eu defnyddio oherwydd annibendod neu bla.<br>• Mae'r mynedfeydd, cynteddau a'r grisiau wedi'u rhwystro neu mae'n anodd mynd heibio.<br>• Nid yw'r toiledau a'r sinciau'n cael eu defnyddio neu'n gweithio.<br>• Mae'r preswylydd mewn perygl oherwydd yr amgylchedd byw.<br>• Nid yw offer cartref yn gweithio neu nid oes modd cael atynt.<br>• Nid oes gan y preswylydd amgylchedd coginio diogel.<br>• Mae'r preswylydd yn defnyddio canhwyllau.<br>• Mae tystiolaeth o annibendod allanol yn cael eu storio dan do.<br>• Does dim tystiolaeth o waith cadw tŷ.<br>• Nid yw eitemau cartref sydd wedi torri yn cael eu taflu, e.e. gwydr neu blatiau wedi torri.<br>• Mae pryder ynghylch dirywiad yn eu hiechyd meddwl.<br>• Nid yw'r eiddo'n cael ei gynnal o fewn telerau cytundeb y brydles neu'r denantiaeth, lle bo hynny'n briodol.<br>• Mae'r eiddo mewn perygl o dderbyn rhybudd gan Iechyd Yr Amgylchedd. |
| **3. Iechyd a Diogelwch** | • Gall wrin a/neu faw dynol fod yn bresennol.<br>• Gall arogl gormodol fod yn yr eiddo, ac o bosib ei fod yn amlwg o'r tu allan hefyd.<br>• Efallai bod bwyd yn pydru yn yr eiddo.<br>• Gellir gweld platiau a dysglau budr, sydd ddim yn cael eu defnyddio a/neu wedi'u claddu.<br>• Nid yw eitemau cartref sydd wedi torri yn cael eu taflu, e.e. gwydr neu blatiau wedi torri.<br>• Symiau anaddas o feddyginiaeth neu eu bod yn cael eu storio'n amhriodol.<br>• Arogl egr y tu mewn i'r eiddo ac o bosibl o'r tu allan.<br>• Pryder ynglŷn â chywirdeb y systemau trydanol.<br>• Defnydd amhriodol o gordiau estyniad trydanol neu dystiolaeth o waith trydanol gan unigolyn anghymwys.<br>• Mae pryder ynghylch dirywiad yn eu hiechyd meddwl. |
| **4. Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl** | • Mae celcio ar raddfa annibendod 7-9 yn gyfystyr â Rhybudd Diogelu.<br>• Nodwch yr holl bryderon ychwanegol ar gyfer deiliaid tai. |
| **5. Anifeiliaid a Phlâu** | • Mae anifeiliaid yn yr eiddo mewn perygl oherwydd y lefel o annibendod yn yr eiddo. Efallai nad yw'r preswylydd yn gallu rheoli'r anifeiliaid yn yr eiddo.<br>• Nid yw ardal fyw yr anifail yn cael ei chynnal ac mae'n arogleuo.<br>• Ymddengys bod yr anifeiliaid yn cael gormod neu dim digon o fwyd.<br>• Celcio anifeiliaid yn yr eiddo. |
| | • Plâu ofnadwy o bryfed (llau gwely, llau, chwain, chwilod du, morgrug, pryfed arian ac ati).<br>• Pla o gnofilod gweladwy. |
| **6. Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)** | • Menig Latex, esgidiau mawr neu esgidiau diogel rhag nodwyddau, masg wyneb, hylif diheintio dwylo, hylif cadw pryfed draw. Rhaid cynnal ymweliadau mewn parau. |

| Camau Gweithredu | Lefel 3 |
|---|---|
| **Asiantaeth Atgyfeirio** | • Cyflwynwch **Rybudd Diogelu o fewn 24 awr**.<br>• Gwnewch gais i'r Frigâd Dân roi cyngor ar atal tân o fewn 24 awr.<br>• Gwnewch atgyfeiriad at y Gwasanaethau Cymdeithasol, os yw'n briodol ar gyfer dinesydd sydd neu a fydd o bosibl yn dod yn gelciwr, er mwyn iddynt gael cymorth a/neu ymyrraeth. |
| **Iechyd yr Amgylchedd** | • Gwnewch atgyfeiriad at Iechyd yr Amgylchedd gyda manylion y cleient, y landlord (os yw'n berthnasol), manylion yr atgyfeiriwr a throsolwg o'r problemau.<br>• Ar adeg yr arolygiad, bydd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn penderfynu ar y camau gweithredu priodol.<br>• Ystyriwch gyflwyno hysbysiadau dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Deddf Atal Difrod Gan Blâu 1949 neu Ddeddf Tai 2004.<br>• Ystyriwch Waith Diofyn os na fydd deiliaid yn cydymffurfio â hysbysiadau. |
| **Landlord** | • Ymwelwch â'r preswylydd i archwilio'r eiddo ac asesu anghenion cefnogaeth.<br>• Ewch i gyfarfod Diogelu aml-asiantaeth.<br>• Gorfodwch amodau tenantiaeth sy'n ymwneud â chyfrifoldebau'r preswylydd.<br>• Os bydd y preswylydd yn gwrthod ymgysylltu, cyflwynwch Hysbysiad Ceisio Meddiant o dan Sail 13 Atodlen 2 Deddf Tai 1988. |
| **Ymarferwyr** | • Cyfeiriwch at y "Hoarding Guidance Questions for practitioners".<br>• Cwblhewch Offeryn Asesu Ymarferwyr.<br>• Sicrhewch eich bod yn rhannu gwybodaeth gyda phob asiantaeth gysylltiedig i sicrhau dull cydweithredol a phenderfyniad cynaliadwy. |
| **Y Gwasanaethau Brys** | • Ewch i gyfarfodydd Diogelu aml-asiantaeth ar gais.<br>• Sicrhewch eich bod yn rhannu gwybodaeth gyda phob asiantaeth gysylltiedig i sicrhau dull cydweithredol a phenderfyniad cynaliadwy.<br>• Darparwch adborth i'r asiantaeth atgyfeirio ar ôl cwblhau ymweliadau cartref. |
| **Lles Anifeiliaid** | • Ymwelwch â'r eiddo i gynnal gwiriad lles ar yr anifeiliaid yn yr eiddo.<br>• Symudwch yr anifeiliaid i amgylchedd diogel.<br>• Addysgwch y cleient ynghylch lles anifeiliaid os yw'n briodol.<br>• Cymerwch gamau cyfreithiol am greulondeb i anifeiliaid os yw'n briodol.<br>• Darparwch gyngor/cymorth gydag ailgartrefu anifeiliaid. |
| **Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol** | • Gwnewch atgyfeiriad at y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol i Blant os oes plant neu bobl ifanc mewn perygl o fewn 24 awr. Dylai rhybudd diogelu symud ymlaen i atgyfeiriad ar gyfer dull amlasiantaethol, gan ymchwilio ymhellach i unrhyw bryderon o gamdriniaeth. |

## 17.0 Cwestiynau Canllaw ar gyfer Ymarferwyr

Isod ceir enghreifftiau o gwestiynau i'w gofyn os ydych chi'n poeni am ddiogelwch rhywun yn ei gartref ei hun, lle'r ydych yn amau bod perygl o hunan-esgeulustod a chelcio

Bydd y wybodaeth a geir o'r cwestiynau hyn yn llywio Asesiad Celcio (gweler atodiad) ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i rybuddio asiantaethau eraill.

Bydd amgylchedd y rhan fwyaf o gleientiaid sydd â phroblem celcio yn codi cywilydd arnynt, felly addaswch y cwestiwn i siwtio'r unigolyn.

- Sut ydych chi'n mynd i mewn ac allan o'ch eiddo, ydych chi'n teimlo'n ddiogel yn byw yma?
- Ydych chi erioed wedi cael damwain, wedi llithro, baglu neu syrthio? Sut ddigwyddodd hyn?
- Sut ydych chi wedi gwneud eich cartref yn fwy diogel i atal hyn (uchod) rhag digwydd eto?
- Sut ydych chi'n symud yn ddiogel o gwmpas eich cartref (lle mae'r llawr yn anwastad neu wedi'i orchuddio, neu lle mae gwifrau agored, tamprwydd, pydredd, neu beryglon eraill)?
- A oes tân erioed wedi dechrau ar ddamwain?
- Sut ydych chi'n cael dŵr poeth, golau, gwres yma? A yw'r gwasanaethau hyn yn gweithio'n iawn? Ydyn nhw wedi cael eu profi erioed?
- Ydych chi erioed wedi defnyddio canhwyllau neu fflam agored i gynhesu a goleuo'r lle neu wedi coginio gyda nwy gwersylla?
- Sut ydych chi'n llwyddo i gadw eich hun yn gynnes? Yn enwedig yn y gaeaf?
- Pryd oedd y tro diwethaf i chi fynd allan i'ch gardd? Ydych chi'n teimlo'n ddiogel i fynd allan yno?
- Ydych chi'n poeni am bobl eraill yn dod i mewn i'ch gardd i geisio torri i mewn? A yw hyn wedi digwydd erioed?
- Ydych chi'n poeni am lygod, llygod mawr neu lwynogod, neu blâu eraill? Ydych chi'n gadael bwyd allan ar eu cyfer?
- Ydych chi erioed wedi gweld llygod neu lygod mawr yn eich cartref? Ydyn nhw wedi bwyta unrhyw fwyd yn eich eiddo? Neu wedi mynd i fyny'r grisiau a nythu yn unrhyw le?

- Allwch chi baratoi bwyd, coginio a golchi llestri yn eich cegin?
- Ydych chi'n defnyddio eich oergell? A gaf i edrych ynddo? Sut ydych chi'n cadw pethau'n oer yn y tywydd poeth?

- Sut ydych chi'n cadw'ch hun yn lân? A gaf i weld eich ystafell ymolchi? Ydych chi'n gallu defnyddio eich ystafell ymolchi a defnyddio'r toiled yn iawn? Ydych chi'n gallu ymolchi, cael bath? Cawod?

- Allwch chi ddangos i mi lle rydych yn cysgu a gadael i mi weld eich ystafelloedd i fyny'r grisiau? A yw'r grisiau'n ddiogel i'w cerdded? (os oes rhai).

- Beth ydych chi'n ei wneud gyda'ch dillad budr?

- Ble ydych chi'n cysgu? Ydych chi'n gallu newid eich dillad gwely yn rheolaidd?

- Pryd oedd y tro diwethaf i chi eu newid?

- Sut ydych chi'n cadw eich hun yn gynnes yn y nos? Oes gennych chi orchuddion ychwanegol i roi ar eich gwely os ydych chi'n oer?

- A oes unrhyw ffenestri wedi torri yn eich cartref? A oes unrhyw waith atgyweirio sydd angen ei wneud?

- Oherwydd y nifer o eiddo sydd gennych, a ydych yn ei chael hi'n anodd defnyddio rhai o'ch ystafelloedd? Os felly, pa rai?

- Ydych chi'n cael trafferth cael gwared ar bethau neu i ba raddau ydych chi'n cael anhawster cael gwared (neu ailgylchu, gwerthu, rhoi) ar bethau cyffredin y byddai pobl eraill yn cael gwared arnynt?

## 18.0 Canllaw ar gyfer Ymarferwyr

### Deall Nodweddion Celcio

Defnyddiwch y canllaw hwn fel sylfaen i ddisgrifio agwedd yr unigolyn tuag at gelcio. Darparwch wybodaeth ychwanegol yn eich atgyfeiriadau ac adroddiadau i alluogi dull wedi'i deilwra sy'n berthnasol i'ch cleient.

**Dealltwriaeth dda neu weddol dda:**

Mae'r unigolyn yn cydnabod bod credoau ac ymddygiad sy'n ymwneud â chelcio (yn ymwneud ag anhawster cael gwared ar eitemau, annibendod neu gaffael gormodol) yn broblemus. Mae'r unigolyn yn cydnabod yr ymddygiad hwn ynddo'i hun.

### Dealltwriaeth wael

Mae'r unigolyn yn eithaf sicr nad yw credoau ac ymddygiad sy'n ymwneud â chelcio (yn ymwneud ag anhawster cael gwared ar eitemau, annibendod neu gaffael gormodol) yn broblemus, er bod tystiolaeth yn profi i'r gwrthwyneb. Efallai y bydd yr unigolyn yn cydnabod problem storio ond does ganddo fawr o hunan-gydnabyddiaeth neu'r gallu i dderbyn ei ymddygiad celcio ei hun.

### Dealltwriaeth yn Absennol (rhithiol)

Mae'r unigolyn yn sicr nad yw credoau ac ymddygiad sy'n ymwneud â chelcio (yn ymwneud ag anhawster cael gwared ar eitemau, annibendod neu gaffael gormodol) yn broblemus, er bod tystiolaeth yn profi i'r gwrthwyneb. Mae'r cleient yn eithrio ei amgylchedd byw yn gyfan gwbl, er gwaethaf y celcio a'r risg posibl i iechyd.

### Gwahanedig, gan neilltuo bai

Mae'r unigolyn wedi bod o'i eiddo am gyfnod estynedig. Mae'r cleient wedi ffurfio gwahaniad o'r eiddo sydd wedi'i gelcio ac mae bellach yn bendant mai 3ydd parti sydd ar fai am gyflwr yr eiddo. Er enghraifft, oherwydd lladrad, sgwatwyr neu aelodau eraill y cartref.

## 19.0 Asesiad Celcio i Ymarferwyr

Dylid cwblhau'r asesiad hwn gan ddefnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i chael yn defnyddio'r Cwestiynau Canllaw ar gyfer Ymarferwyr

Peidiwch â chwblhau'r adolygiad hwn yn eiddo'r cleientiaid. Dylech ei gwblhau ar y cyd â'r Offeryn Asesu Protocol Celcio Amlasiantaethol. (Bydd y blychau testun yn ehangu os bydd angen mwy o le)

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr Asesiad o'r Cartref | |
| Enw'r Cleient | |
| Dyddiad Geni'r Cleient | |
| Cyfeiriad | |
| Manylion cyswllt y Cleient | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Math o annedd | | | | |
| Rhydd-ddeiliad | Ydy | Tenant – Enw a Chyfeiriad y landlord | | |
| Aelodau'r Cartref | Enw | | Perthynas | Dyddiad Geni |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| Anifeiliaid Anwes – nodwch pa anifeiliaid anwes ac unrhyw bryderon | | | | |
| Asiantaethau sy'n ymwneud â'r achos ar hyn o bryd – gyda manylion cyswllt | | | | |
| Cefnogaeth nad yw'n rhan o'r asiantaeth sydd ar waith ar hyn o bryd | | | | |
| Agwedd y cleient tuag at gelcio | | | | |

| **Nodwch os yn bresennol yn yr eiddo** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Difrod strwythurol i'r eiddo | | Haig o bryfed neu gnofilod | | Nifer fawr o anifeiliaid | | Annibendod y tu allan | |
| Bwyd wedi pydru | | Gwastraff anifeiliaid yn y tŷ | | Pryderon ynghylch glendid yr eiddo | | Ysgarthion dynol gweladwy | |
| Pryder o hunan-esgeuluso | | Pryder am blant yn yr eiddo | | Pryder am oedolion eraill yn yr eiddo | | | |

| **Gan ddefnyddio'r Ddelwedd Mesur Annibendod, rhowch sgôr i bob un o'r ystafelloedd isod** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ystafell wely 1 | | Ystafell wely 4 | | Toiled ar wahân | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ystafell wely 2 | | Y Gegin | | Y Lolfa | |
| Ystafell wely 3 | | Ystafell ymolchi | | Ystafell fwyta | |
| Cyfeiriwch at y Protocol Celcio Aml-asiantaeth. Rhowch Ddisgrifiad o'r Broblem Gelcio: (presenoldeb gwastraff dynol neu anifeiliaid, cnofilod neu bryfed, bwyd yn pydru, a yw'r cyfleustodau'n weithredol, a oes difrod strwythurol, problemau gydag allanfeydd wedi'u rhwystro, a oes deunydd hylosg, a oes perygl o dân? Ac ati) | | | | | |
| | | | | | |
| **Cyfeiriwch at Offeryn Protocol Celcio Aml-asiantaeth. Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir uchod, ar ba lefel y caiff eich achos ei raddio?** | | | | | |
| Lefel 1- Gwyrdd | | Lefel 2 - Oren | | Lefel 3 - COCH | |
| Enw'r ymarferwr sy'n cynnal yr asesiad | | | | | |
| Enw'r Sefydliad | | | | | |
| Manylion cyswllt | | | | | |
| Y camau nesaf i'w cymryd | | | | | |
| Rhestrwch yr asiantaethau'r atgyfeiriwyd atynt, gan gynnwys dyddiadau ac enwau cyswllt | | | | | |

## ATODIAD 1.

**I'W DDEFNYDDIO AR GYFER LEFEL 3**

| |
|---|
| |
| **CELCIO** |
| |
| **Cyfarfod Aml-Asiantaeth** |

| |
|---|
| **Enw:** |

| |
|---|
| **Cynhaliwyd**: |

**1. CROESO, CYFLWYNIADAU AC YMDDIHEURIADAU**

**2. DIBEN Y CYFARFOD**

**3. GWYBODAETH GEFNDIR GAN GYNNWYS MATERION / PRYDERON**

**4. TRAFODAETH GYFFREDINOL; BETH SYDD EISOES WEDI CAEL EI WNEUD A CHAN BWY**

- Defnyddio a thrafod delwedd ac offeryn mesur annibendod

**5. CYNLLUN GWEITHREDU**

**6. UNRHYW FATER ARALL**

**7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF OS BYDD ANGEN**

**ATODIAD 2.**

## ASESIAD RISG CYMHLETH

## CYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| Enw'r Defnyddiwr Gwasanaeth | |
| Rhif Paris | |

I'w atodi gydag asesiadau llawn a chynlluniau gofal a anfonir at ddarparwyr mewn sefyllfaoedd lle mae risg sylweddol wedi'i nodi (yn unol â chanllawiau ar rannu gwybodaeth a chyfrinachedd).

Oherwydd ei bod yn debygol y bydd y ffurflen hon yn cynnwys gwybodaeth sensitif neu wybodaeth gan drydydd partïon, ni ddylid ei rhannu gyda'r defnyddiwr heb gytundeb ymlaen llaw gan y trydydd partïon hynny a'r rheolwr tîm, oni chafodd ei chwblhau gyda'r defnyddiwr.

Ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth Iechyd Meddwl, cyfeiriwch at y Cynllun Gofal a Thriniaeth ac Asesiad Risg Rhwydwaith Ymchwil Risg Cymhwysol Cymru.

**Categorïau'r Risg a Nodwyd:** *Ticiwch bob categori priodol*

| **Categori** | **Ydy** | **Nac ydy** | **Categori** | **Ydy** | **Nac ydy** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymosodol / Treisgar | | | Hunan-niweidio | | |
| Camfanteisio (ar eraill) | | | Hunan-esgeulustod | | |
| Risg i blant (cyfeiriwch at Bolisi Croesraniad Amddiffyn Plant) | | | Oedolion Diamddiffyn (cyfeiriwch at y Polisi Oedolion Diamddiffyn) | | |
| Methu â gofalu | | | Digartrefedd | | |
| Arwahanrwydd cymdeithasol eithafol | | | | | |
| Arall *(nodwch)* | | | | | |

**Os ydych chi wedi ateb Ydy i unrhyw un o'r uchod, parhewch â'r Asesiad Risg:**

| |
|---|
| Ffactorau cyfredol sy'n awgrymu bod perygl amlwg; Ar beth mae'r asesiad hwn yn seiliedig arno (e.e. hanes; adroddiadau gan bobl eraill; adroddiad gan y defnyddiwr, gofalwr neu ffynhonnell arall); Difrifoldeb y risg (isel; canolig, uchel, brys); Ystyriwch - camddefnyddio alcohol neu gyffuriau; Bygythiadau i niweidio eu hunain neu eraill; Adroddiadau o niwed gwirioneddol tuag at eu hunain neu eraill yn y gorffennol; Symptomau posibl o salwch meddwl megis syniadau paranoiaidd neu rhy amheus; Dicter heb esboniad neu aflonyddwch emosiynol neu ymddygiadol arall; Cofnod troseddol neu hanes fforensig a nodwyd gan yr unigolyn; A oes hanes o weithredoedd anrhagweladwy neu fyrbwyll?; Os nodir trais, a oes arfau wedi cael eu defnyddio?; Os oes ymddygiad ymosodol, a oedd ar lafar?; A fu difrod i eiddo?; A oes unrhyw dystiolaeth o gamdriniaeth hiliol - ai'r cyflawnwr neu'r dioddefwr yw'r defnyddiwr? |
| |
| Pwy sydd mewn Perygl? - a oes unrhyw unigolyn penodol wedi'i nodi neu ai'r defnyddiwr yw'r unig unigolyn sydd mewn perygl? |
| |
| Pa mor uniongyrchol yw'r risg - a yw'n rhan o batrwm parhaus / yn ddigwyddiad "unwaith yn unig" yn y gorffennol / yn risg gyfredol? |

| |
|---|
| |
| A oes unrhyw arwyddion o "rybudd cynnar" neu "sbardunau" i'r risg. A oes patrwm rhagweladwy neu unrhyw ffactorau sy'n hysbys i gynyddu / lleihau’r risg - rhowch fanylion |
| |
| A oes unrhyw ffactorau diogelwch arbennig y dylai pobl eraill sy'n gweithio gyda'r defnyddiwr fod yn ymwybodol ohonynt (e.e. a ddylid ymweld â nhw mewn parau yn unig, neu a ddylai mwy nag un person fod yn bresennol wrth ei weld yn y swyddfa, neu a ddylid ei atgyfeirio at wasanaeth arbenigol arall) |
| |

**Canlyniad**

A oes angen Cynllun Rheoli Risg? Oes ☐ Nac oes ☐

Dyddiad Adolygu

Os “Nac oes” – Llofnod yr Asesydd ______________________________ Dyddiad ______________

Cytunwyd gan y Rheolwr ________________________________________ Dyddiad ______________

## Rheoli Risg

I'w gwblhau ym mhob sefyllfa lle nodir risg sylweddol.

| Cynllun Gweithredu ar gyfer lleihau risg a phwy fydd yn gyfrifol am gynnal y cynllun |
|---|
| |
| Cynllun Wrth Gefn - pa gamau y dylid eu cymryd os bydd y Cynllun Gweithredu yn methu? |

| |
|---|
| |
| Cynllun mewn Argyfwng - Pa gamau y dylid eu cymryd mewn sefyllfa o argyfwng, gan gyfeirio'n benodol at ymatebion y tu allan i oriau |
| |

Llofnod yr Asesydd: ___________________________________________ Dyddiad: ___________

Cytunwyd gan y Rheolwr Tîm________________________________________ Dyddiad: ___________

Dyddiad Adolygu: ________________

# Hanes Risg - CYFRINACHOL

**Cofnod o achosion o ymddygiad risg, gan gynnwys trais neu ymddygiad ymosodol neu gyfnodau o hunan-niweidio neu weithgarwch troseddol hysbys. Nodwch a oedd yn wirioneddol neu'n fygythiad, yn nhrefn y dyddiad. Mae'n rhaid cofnodi achosion newydd. Oherwydd ei bod yn debygol y bydd y ffurflen hon yn cynnwys gwybodaeth sensitif neu wybodaeth gan drydydd partïon, ni ddylid ei rhannu gyda'r defnyddiwr heb gytundeb ymlaen llaw gan y trydydd partïon hynny a'r rheolwr tîm.**

| Dyddiad y Digwyddiad | Cofnod o'r Digwyddiad - Nodwch cymaint o fanylion â phosibl, gan gynnwys ffynhonnell y wybodaeth, a yw wedi'i wirio a chanlyniad y digwyddiad. | Llofnod yr Asesydd + dyddiad | Llofnod y Rheolwr + dyddiad |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Atodiad 3

# *ATGYFEIRIAD AR GYFER GWIRIAD DIOGELWCH A LLES*
# REFERRAL FOR A SAFE AND WELL CHECK

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

### *MANYLION Y DEFNYDDIWR GWASANAETH*
### SERVICE USER DETAILS

| | | |
|---|---|---|
| *Iaith ddewisol yr ymweliad (Cymraeg/Saesneg/Arall)*<br>Preferred language for visit (Welsh/English/Other) | | |
| *Enw'r defnyddiwr gwasanaeth*<br>Name of service user | | |
| *Rhif /Enw'r tŷ*<br>House number/name | | |
| *Enw'r stryd/ Pentref / ardal /Tref*<br>Street name/Village/area/ Town | | |
| *Cod Post* / Postcode | | Rhif Ffôn/ Telephone; |

### *Ffactorau Cyfrannol* /Contributory Factors

■ X

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. *Oes gan unrhyw un yn y cartref nam corfforol?*<br>Does anyone in the household have a physical impairment? | | | |
| 2. *Oes gan unrhyw un yn y cartref broblemau iechyd meddwl?*<br>Does anyone in the household have mental health issues? | | | |
| 3. *Oes gan unrhyw un yn y cartref broblemau camddefnyddio alcohol neu sylweddau yn cynnwys meddyginiaeth a all eu gwneud yn gysglyd?*<br>Does anyone in the household have alcohol or substances misuse issues including any medication which could make them drowsy? | | | |
| 4. *Byw ar eu pen eu hunain?*<br>Live alone ? | | 5. Oes yna unrhyw un yn ysmygu yn y cartref?<br>Does anyone in the household smoke? | |
| 6. Synwyryddion mwg gweithredol<br>Active working smoke alarms | | 7. Oed / Age | |

***Gwybodaeth ychwanegol;*** **(e.e. Angen Ymweliad ar y Cyd - Materion Gweithio Ar Eich Pen Eich Hun)**

**Additional information;** **(e.g. Joint Visit required – Lone Working Issues)**

.......................................................................................................................................................................................................

### *MANYLION YR ASIANTAETH*
### AGENCY DETAILS

| | | |
|---|---|---|
| *Asiantaeth/ Agency* | | |
| *Person cyswllt/ Contact person* | | |
| *Rhif Ffôn / Telephone* | | Dyddiad / Date |

Ceir crynodeb o Hysbysiad Preifatrwydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer Archwiliad o Ddiogelwch a Lles dros y dudalen.
Mae hysbysiad preifatrwydd llawn ar gyfer Archwiliadau Diogelwch a Lles ar gael ar ein gwefan yn https://www.nwales-fireservice.org.uk/about-us/publication-scheme/general-data-protection-regulation/.

A summary of the North Wales Fire & Rescue Service's Privacy Notice for a Safe & Well Check is outlined overleaf.

A full privacy notice for Safe and Well Checks can be found on our web site at https://www.nwales-fireservice.org.uk/about-us/publication-scheme/general-data-protection-regulation/

***Conwy a Sir Ddinbych Atgyfeirio/Referral - E-bost Diogel Egress Secure* E-mail:**

ConwyOffice@nwales-fireservice.org.uk **Ffôn/ Tel: *01745 352 777.***

***Gwynedd ac Ynys Môn Atgyfeirio/Referral- E-bost Diogel Egress Secure E-mail:***

Gwynedd.Mon@nwales-fireservice.org.uk **Ffôn/ Tel: *01286 662 999***

***Wrecsam a Sir Ddinbych- Atgyfeirio/Referral- e-bost Diogel Egress Secure E-mail:***

Flintshire.Wrexham@nwales-fireservice.org.uk **Ffôn/ Tel 01978 367 870**

Fersiwn/Version 07/2019